Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 19 Hydref 2011**

Amser:
**09:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Claire Morris**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148
CYPCommittee@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13: Sesiwn craffu ar waith y Gweinidog (9:15 - 10:30) (Tudalennau 1 - 12)

Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau
Gwen Kohler, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rheolaeth Ariannol
Chris Tweedale, Cyfarwyddwr y Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc

**Egwyl (10:30-10:40)**

### 3. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13: Sesiwn craffu ar waith y Gweinidog (10:30 - 11:45) (Tudalennau 13 - 19)

Lesley Griffiths, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Martin Swain, Pennaeth yr Is-adran Strategaeth Plant a Phobl Ifanc
Steve Milsom, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

# Eitem 2

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Dyddiad:** **19 Hydref 2011**

**Amser:** **09:00 – 10:30**

**Lleoliad:** **Y Senedd**

**Teitl:** **Y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2012-13**

**Diben**

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am y gyllideb Addysg a Sgiliau, ac am y blaenoriaethau yn y maes hwnnw ar gyfer 2012-13.

**Yr amserlen**

2. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 4 Hydref 2011.

**Y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2012-13**

3. Mae Cyllideb Ddrafft 2012-13 yn gynllun tair blynedd ar gyfer buddsoddi mewn addysg a sgiliau yng Nghymru. Mae Tabl 1 yn drosolwg o'r gyllideb arfaethedig neu'r 'prif grŵp gwariant' (MEG), ac mae hefyd yn dangos y newidiadau a wnaed i'r gyllideb ddangosol ers i'r Gyllideb Atodol ddiwethaf gael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2011 (a oedd yn ailddatgan y gyllideb Addysg a Sgiliau gan ystyried newidiadau a wnaed i bortffolios ers y Gyllideb Derfynol).

*Tabl 1: Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau*

| | 2011-12 Y Gyllideb Atodol Mehefin 2011 £000 | 2012-13 Y Gyllideb Atodol (Ddangosol) £000 | Newidiadau £000 | 2012-13 Y Gyllideb Ddrafft £000 | 2013-14 Y Gyllideb Atodol (Ddangosol) £000 | Newidiadau £000 | 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft £000 | 2014-15 Y Gyllideb Atodol (Ddangosol) £000 | Newidiadau £000 | 2014-15 Y Gyllideb Ddangosol £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Refeniw | 1,630,201 | 1,627,590 | 20,590 | 1,648,180 | 1,647,634 | 27,190 | 1,674,824 | 1,647,634 | 34,825 | 1,682,459 |
| DEL Cyfalaf | 169,973 | 161,343 | 0 | 161,343 | 143,834 | 0 | 143,834 | 143,834 | 0 | 143,834 |
| **Cyfanswm y DEL** | **1,800,174** | **1,788,933** | **20,590** | **1,809,523** | **1,791,468** | **27,190** | **1,818,658** | **1,791,468** | **34,825** | **1,826,293** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 125,302 | 122,312 | 28,213 | 150,525 | 112,009 | 49,276 | 161,285 | 112,009 | 41,301 | 153,310 |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **1,925,476** | **1,911,245** | **48,803** | **1,960,048** | **1,903,477** | **76,466** | **1,979,943** | **1,903,477** | **76,126** | **1,979,603** |

4. Mae cynnydd o £20.6 miliwn, neu 1.3%, yn y cyllid refeniw ar gyfer 2012-13 o'i gymharu â'r gyllideb ddangosol. Mae cynnydd yn y cyllidebau

dangosol ar gyfer y blynyddoedd a ddaw hefyd, £27.2 miliwn (1.65%) yn 2013-14 a £34.8 miliwn (2.1%) yn 2014-15 .

5. Nid yw'r gyllideb cyfalaf wedi newid ers y gyllideb ddangosol. Mae'n gostwng i £143.8 miliwn erbyn 2013-14 o'i chymharu â'r gyllideb bresennol o £169.9 miliwn. Mae pob prosiect a gymeradwywyd yn mynd rhagddo. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

6. Cafwyd cyllid ychwanegol o £22.3 miliwn o'r Gronfa Cyfalaf wrth Gefn Ganolog (CRC) ar gyfer 2011-12. Mae'r cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer prosiectau Porth y Cymoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Dinefwr ac Ardal Ddysgu Merthyr. Bydd yr Adran yn gwneud cais am gyllid ychwanegol o'r Gronfa Cyfalaf wrth Gefn Ganolog (CRC) ar gyfer y blynyddoedd a ddaw unwaith y bydd y cyllid hwnnw ar gael.

7. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud yn gyfan gwbl â benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r benthyciadau hyn yn dibynnu ar y galw ac mae cyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill yn effeithio arnynt. Mae'r cynnydd o £28.2 miliwn yn gysylltiedig yn bennaf â'r cynnydd a ragwelir mewn benthyciadau newydd. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn. Rhagamcanion ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf yw'r ffigurau o £150.5m ar gyfer 2012-13, a chymerir y byddant yn cael eu hariannu'n llawn gan y Trysorlys.

**Cyd-destun y Gyllideb**

8. Mae'r gyllideb hon yn cael ei phennu yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y cylch cynllunio diwethaf, ond rydym, er hynny, am wireddu'r ymrwymiadau a wnaed yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhaglen ddeddfwriaethol, megis y Bil Ysgolion a Safonau. Yn ystod y gyllideb ddiwethaf, gwelwyd gostyngiad o £21.1 miliwn mewn cyllid refeniw ar gyfer 2011-12 o'i gymharu â'r lefelau yn 2010-11. Mae llawer o'r cyllidebau dangosol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror yn ddigyfnewid yn y Gyllideb hon. Serch hynny, mae cyllid ychwanegol yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau ar gyfer:

- **Twf Swyddi Cymru,** y cyntaf o'r addewidion "pump am ddyfodol tecach" a wnaed gan Lywodraeth Cymru (£12.5m);

- **Gwariant rheng flaen mewn ysgolion** – byddwn yn parhau â'n cynlluniau blaenorol i gynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn fwy na'r newidiadau cyffredinol yng nghyllideb Cymru yn ei chyfanrwydd ar gyfer 2012-13 a 2013-14, a byddwn yn gwneud hynny yn 2014-15 hefyd (£4.6 miliwn);

- **Rhaglen ADAPT** – byddwn yn parhau â rhaglen ADAPT sy'n helpu gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n colli eu gwaith i ddychwelyd i'r gwaith neu ddechrau eu busnesau eu hunain (£5 miliwn);

- **Llaeth a Brecwast am Ddim mewn Ysgolion** – bydd yr ymrwymiad i'r rhaglenni cyflawni hwn yn parhau;

- **Cyllid i Fyfyrwyr** - o'r flwyddyn academaidd 2012-13 ymlaen bydd myfyrwyr rhan amser ym maes Addysg Uwch yn cael manteisio ar yr un pecyn cyllid i fyfyrwyr â myfyrwyr llawnamser (£4.3 miliwn/£10.9 miliwn/£13.8 miliwn).

9. Aed ati, wrth bennu'r gyllideb, i ailflaenoriaethu cyllidebau dros £17.6 miliwn: a hynny er mwyn gwireddu addewidion eraill yn y Rhaglen Lywodraethu megis sefydlu cymhwyster Gradd Meistr ar gyfer athrawon a datblygu amgylchedd dysgu rhithwir ym mhob ysgol; a chyfeirio mwy o gyllid i'r rheng flaen drwy gyfrwng y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

10. Wrth bennu'r gyllideb hon, mae'r Adran wedi ystyried ac asesu effeithiau'r newidiadau ar y sefydliadau y byddant yn effeithio arnynt ac, yn bwysicach fyth, ar y dysgwyr a'r deilliannau dysgu. Aed ati'n ofalus i ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb a'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Wrth asesu'r penderfyniadau a wnaed i ostwng cyllidebau yn y gyllideb ddrafft, barnwyd nad ydynt yn effeithio mewn ffordd anghymesur ar y grwpiau penodol ar sail oedran, anabledd, rhyw ac ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Byddwn yn parhau i adolygu'r effaith a gaiff cyllidebau ar gydraddoldeb, a byddwn yn gwneud hynny hefyd wrth ddyrannu cyllid ar gyfer rhaglenni penodol, ac i gyrff allanol.

11. Ad-drefnwyd strwythur cyfrifyddu'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a ddarperir yn cyd-fynd â'r canlyniadau strategol y mae'r adrannau am eu gweld, ac er mwyn gwneud cyllidebau'n gliriach. Mae'r cynlluniau cyllidebu ar lefel Gweithredu i'w gweld yn Atodiad 1 fel y'u cyhoeddwyd ar 4 Hydref, ac mae manylion Llinellau Gwariant y Gyllideb i'w gweld yn Atodiad 2.

**Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb**

12. Ceir crynodeb isod o'r newidiadau i bob cyllideb ar lefel Gweithredu.

- ***Safonau Addysg a Hyfforddiant - Cyllideb 2012-13 £1,145.5 miliwn***
  ***"Codi safonau addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru er mwyn i bawb fedru cyrraedd ei botensial."***

*Llythrennedd a Rhifedd: Cyllideb 2012-13 £5.5 miliwn*

13. Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru i hoelio'i sylw ar wella safonau addysgol, a safonau llythrennedd a rhifedd yn benodol, yn 2011-12, rydym wedi trosglwyddo symiau o fewn y gyllideb er mwyn creu cyllideb benodol ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r symiau yr oedd angen eu trosglwyddo i'w gweld yn y gyllideb ar ffurf trosglwyddiadau o un BEL i'r llall. Mae cyllid gwerth £7 miliwn ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd mewn Ysgolion wedi'i ailgyfeirio i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Yn yr un modd, cafodd swm o £1.1 miliwn ei drosglwyddo i'r gyllideb Cyflogadwyedd y Gweithlu ar gyfer oedolion. Trosglwyddwyd swm o £2.2 miliwn o'r gyllideb

Cyfleoedd Mynediad, sy'n ymwneud â chyllid a oedd yn cael ei gysylltu yn y gorffennol â rhaglenni llythrennedd a rhifedd ar gyfer teuluoedd sy'n rhan o'r rhaglen Cymorth, sy'n parhau i ddod o dan y portffolio Addysg a Sgiliau.

14. Mae hyn yn golygu mai'r llinell sylfaen ar gyfer 2011-12 yw £3.512 miliwn ac y bydd cynnydd o £4 miliwn yn y gyllideb Llythrennedd a Rhifedd erbyn 2014-15 o'i gymharu â'r lefelau gwariant arfaethedig yn 2011-12 .

*Y Cwricwlwm: Cyllideb 2012-13 £123.3 miliwn*

15. Mae gostyngiad o £4.2 miliwn yn y gyllideb. Bydd modd gwneud arbedion gwerth £3.368 miliwn yn y gyllideb Dysgu 14-19 yn 2012-13 drwy ddarparu llwybrau dysgu 14-19 ar sail ranbarthol. Bydd yr arbedion hyn yn codi i £4.611 miliwn yn 2013-14.

*Addysgu ac Arweinyddiaeth: Cyllideb 2012-13 £20 miliwn*

16. Daethpwyd o hyd i swm ychwanegol o £0.5m drwy ailflaenoriaethu yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau er mwyn darparu cyllid i dreialu ffyrdd mwy hyblyg o ddarparu hyfforddiant i athrawon sy'n gysylltiedig â'n blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r swm hwn yn codi i £1.1 miliwn yn 2013-14 ac £1.3 miliwn yn 2014-15.

17. Llwyddwyd i ad-drefnu ymhellach o dan y Cam Gweithredu hwn drwy ailgyfeirio adnoddau o nifer o raglenni datblygu llai a thrwy gwtogi ar nifer y lleoedd hyfforddiant cychwynnol i athrawon. O'r herwydd, bydd modd dyrannu swm o oddeutu £4 miliwn er mwyn helpu i ddatblygu cymhwyster lefel Gradd Meistr ar gyfer athrawon, sy'n un o'r addewidion allweddol eraill yn y Rhaglen Lywodraethu.

*Cymwysterau: Cyllideb 2012-13 £13.6 miliwn*

18. Mae arbedion gwerth £1.7 miliwn mewn cyllidebau sy'n ddibynnol ar y galw ar gael bellach i'w hailfuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen eraill.

*Addysg Ôl-16 Cyllideb 2012-13 £551.2 miliwn*

19. Mae'r gyllideb hon yn darparu cyllid prif ffrwd ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion, ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned. I bob pwrpas, nid oes unrhyw newid ers y gyllideb ddangosol. O'i gymharu â'r lefelau yn 2011-12, bydd cynnydd o £16 miliwn (2.9%) yn ystod y cyfnod cynllunio. Mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer Addysg Bellach yn rhyw £320 miliwn yn 2012-13 ac yn £325 miliwn yn 2013-14, ac mae'n cynnwys Cymraeg i Oedolion ac AB mewn darpariaeth Addysg Uwch. Mae cyllidebau dangosol ar gyfer 2013-14 wedi'u cyflwyno yn 2014-15 yn y gyllideb ddrafft. Mae gostyngiad bach o £0.1 miliwn yn y BEL Datblygu Polisi AB am fod rhaglenni wedi dod i ddiwedd eu hoes.

*Addysg Uwch: Cyllideb 2012-13 £380.4 miliwn*

20. Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cyllidebau dangosol ar gyfer Addysg Uwch. Mae'r newidiadau i'r model ariannu addysg uwch yn cael eu gwneud gan gadw at y cynlluniau sy'n bodoli eisoes.

*Strwythurau Addysg: Cyllideb 2012-13 £3.9 miliwn*

21. Mae'r gyllideb hon yn gysylltiedig â'r agenda trawsnewid. Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig.

*Safonau Addysg: Cyllideb 2012-13 £39.9 miliwn*

22. Drwy sefydlu cyllideb benodedig ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd yn 2011-12, bydd swm ychwanegol o £7 miliwn yn cael ei gyfeirio at yr ysgolion drwy gyfrwng y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY) yn ystod y flwyddyn gyfredol. Yn ogystal, drwy nodi arbedion ac ailflaenoriaethu adnoddau o gyllidebau eraill yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG), llwyddwyd i sicrhau cynnydd sylweddol yn y cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy'r GEY. Mae hyn yn golygu bod cynnydd pellach o £7.552 miliwn yn 2012-13, £13.195 miliwn yn 2013-14 a £17.595 miliwn yn 2014-15. Hefyd, mae'r cyllid ar gyfer diogelu cyllidebau ysgolion yn cael ei ymestyn i 2014-15.

*TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth: Cyllideb 2012-13 £7.5 miliwn*

23. Nid oes bwriad i newid y gyllideb ddangosol. Serch hynny, drwy ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb hon, llwyddwyd i nodi swm o hyd at £0.5 miliwn er mwyn mynd ati i ystyried y posibiliadau ar gyfer datblygu amgylchedd dysgu rhithwir ar gyfer ysgolion, sy'n un o'r ymrwymiadau eraill a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu.

- ***Gweithlu Medrus – Cyllideb 2012-13 £82.4m***
  ***"Sicrhau bod gennym weithlu sy'n meddu ar y sgiliau priodol a bod cyfleoedd o ansawdd uchel ar gael i bob dysgwr."***

*Sgiliau yn y Gweithle: Cyllideb 2012-13 £27.8 miliwn*

24. Mae £5 miliwn yn ychwanegol ar gael ym mhob blwyddyn er mwyn parhau â rhaglen ADAPT, sy'n helpu gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n colli eu gwaith i ddychwelyd i'r gwaith neu i ddechrau eu busnesau eu hunain. Crëwyd cyllideb o £3 miliwn ar gyfer Sgiliau Twf drwy ailflaenoriaethu adnoddau o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), a throsglwyddwyd swm o £1.35 miliwn hefyd o'r BEL Cyflogadwyedd.

*Cyflogadwyedd: Cyllideb 2012-13 £18.7 miliwn*

25. Bydd y gyllideb hon yn elwa ar gyllid ychwanegol o £12.5 miliwn y flwyddyn er mwyn creu Twf Swyddi Cymru, a disgwylir y bydd swm pellach o £12.5 miliwn ar gael o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar ffurf arian cyfatebol. Mae swm pellach o £1.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r gyllideb hon hefyd ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd oedolion. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso drwy drosglwyddo swm rheolaidd o £1 miliwn i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Busnes, Menter a Thechnoleg ar gyfer yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, yn ogystal â swm o £1.35 miliwn a drosglwyddwyd i'r Cam Gweithredu Sgiliau yn y Gweithle er mwyn creu'r gyllideb Sgiliau Twf.

*Dewis Addysgol a Gyrfaoedd: Cyllideb 2012-13 £36 miliwn*

26. Nid yw cyllideb y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gyfer 2012-13 wedi newid ers y cyllidebau dangosol. Bydd gostyngiad pellach o £5 miliwn o 2013-14 ymlaen, a disgwylir y bydd modd sicrhau'r arbedion hyn drwy ad-drefnu'r

modd y bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cael ei ddarparu ar ôl yr adolygiad o gwmpas y gwasanaethau a sut y maent yn cael eu darparu.

- ***Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb - Cyllideb 2012-13 £390.8 miliwn***
  ***"Helpu unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau i wella lles economaidd a chymdeithasol ac i leihau anghydraddoldeb drwy addysg a hyfforddiant."***

*Cyfleoedd Mynediad: Cyllideb 2012-13 £4.9 miliwn*

27. Mae gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer Cefnogi Pobl Ifanc am fod swm o £2.259 miliwn wedi'i drosglwyddo i'r gyllideb Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r swm a drosglwyddwyd yn gysylltiedig â rhaglenni llythrennedd a rhifedd i deuluoedd, a oedd gynt yn rhan o'r rhaglen Cymorth.

*Lles Plant a Phobl Ifanc Cyllideb 2012-13 £62.6 miliwn*

28. Mae swm o £0.21 miliwn wedi cael ei drosglwyddo o'r gyllideb hon i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn sgil newidiadau o ran pwy sy’n gyfrifol am Dribiwnlys AAA Cymru. Nodwyd arbedion effeithlonrwydd gwerth £2 miliwn yn y gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae'r cyllid hwn wedi'i ailgyfeirio i AAA Ôl-16 o fewn y Cam Gweithredu hwn er mwyn ymdopi â phwysau posibl ar y gyllideb honno, sy'n ddibynnol ar y galw.

*Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16: Cyllideb 2012-13 £310.9 miliwn*

29. Gan fod bwriad i gynnig yr un pecyn cymorth i fyfyrwyr rhan-amser ag a gynigir i fyfyrwyr amser llawn, bydd cyllid ychwanegol nad yw'n arian parod yn cael ei ddarparu o'r cronfeydd canolog at y diben hwn. Darperir swm o £4.3 miliwn yn 2012-13, a bydd hwn yn codi i £10.9 miliwn yn 2013-14 a £13.8 miliwn yn 2014-15.

*Ennyn Diddordeb Disgyblion: Cyllideb 2012-13 £12.2 miliwn*

30. Nid oes bwriad i newid y gyllideb ddangosol.

- ***Yr Iaith Gymraeg - Cyllideb 2012-13 £26.4 miliwn***
  ***"Gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru."***

*Dysgu Cymraeg: Cyllideb 2012-13 £12.4 miliwn*

31. Nid oes bwriad i newid y gyllideb ddangosol hon.

*Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Cyllideb 2012-13 £13.9 miliwn*

32. Nid oes bwriad i newid y gyllideb ddangosol hon. Er hynny, bydd newidiadau mawr yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei benodi, a Thribiwnlys y Gymraeg yn cael ei sefydlu, yn ogystal â system newydd o Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg, a hawliau newydd ar gyfer pobl Cymru. Nid yw'r cynlluniau hyn yn derfynol eto ac o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion hyn ar gyfer y gyllideb.

- ***Cymorth Cyflawni - Cyllideb 2012-13 £3.1 miliwn***
  ***"Mae adnoddau'n cael eu rheoli ac maent yn helpu i gyflawni canlyniadau."***

*Cyfathrebu Strategol: Cyllideb 2012-13 £1.5 miliwn*

33. Drwy graffu'n ofalus ar gyllidebau cyfathrebu a marchnata yr Adran Addysg a Sgiliau, llwyddwyd i ryddhau £1 filiwn i'w ailfuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

Ymchwil a Gwasanaethau Addysg *: Cyllideb 2012-13 £1.6 miliwn*

34. Bwriedir gwneud arbedion tebyg gwerth £1 filiwn yn y cyllidebau ymchwil a gwerthuso, a bydd y cyllid hwn yn cael ei ryddhau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

**Crynodeb**

35. Cyflwynir y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2012-13 i'w hystyried gan y pwyllgor.

| Actions | 2011-12 Supplementary Budget June 2011 | Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Changes | 2012-13 Draft Budget New Plans | Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 Draft Budget New Plans | Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Draft Budget New Plans | COMMENT |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Literacy and numeracy | 9,353 | 11,353 | -5,841 | 5,512 | 13,353 | -5,841 | 7,512 | 13,353 | -5,841 | 7,512 | 1. Transfer in of £2.259m from Access to Opportunities, tra<br>of £1.1m to Employability. |
| Curriculum | 121,562 | 127,562 | -4,216 | 123,346 | 131,462 | -5,459 | 126,003 | 131,462 | -5,459 | 126,003 | 1. Saving identified of £3.368m in 2012-13 rising to £4.611<br>movement to regional consortia working for 14-19 Learning<br>2. Further savings identified from 2012-13 of £0.45m from<br>from Support from Improving Standards as programmes o |
| Teaching and leadership | 20,218 | 19,548 | 500 | 20,048 | 18,815 | 1,100 | 19,915 | 18,815 | 1,300 | 20,115 | 1. Increase provided from savings identified in other action<br>linked to our school improvement priorities.<br>prioritisation from within existing budgets within this Action<br>teachers. |
| Qualifications | 15,304 | 15,304 | -1,736 | 13,568 | 15,304 | -1,736 | 13,568 | 15,304 | -1,736 | 13,568 | Savings identified from 2012-13 as programmes of work re<br>identification of efficiencies. |
| Post-16 education | 542,376 | 551,345 | -100 | 551,245 | 558,476 | -100 | 558,376 | 558,476 | -100 | 558,376 | Savings identified from FE Policy Development due to the |
| Higher education | 394,479 | 380,424 | 0 | 380,424 | 380,284 | 0 | 380,284 | 380,284 | 0 | 380,284 | |
| Education Structures | 3,943 | 3,943 | 0 | 3,943 | 3,943 | 0 | 3,943 | 3,943 | 0 | 3,943 | |
| Educational Standards | 22,600 | 25,300 | 14,552 | 39,852 | 29,500 | 20,195 | 49,695 | 29,500 | 24,595 | 54,095 | 1. Additional allocation from the Central Reserve of £4.6m<br>schools budgets.<br>2. Additional funding provided for schools from savings ide<br>£13.195m in 2013-14 and £12.995m in 2014-15.<br>3. Transfer in of £7m from Literacy & Numeracy. |
| ICT & Information Management Systems | 7,655 | 7,538 | 0 | 7,538 | 7,423 | 0 | 7,423 | 7,423 | 0 | 7,423 | Re-prioritisation within this Action will provide £0.5m to dev<br>Environment in schools. |
| **Total Education and Traning Standards** | **1,137,490** | **1,142,317** | **3,159** | **1,145,476** | **1,158,560** | **8,159** | **1,166,719** | **1,158,560** | **12,759** | **1,171,319** | |
| Skills in the workplace | 25,952 | 21,406 | 6,350 | 27,756 | 22,006 | 6,350 | 28,356 | 22,006 | 6,350 | 28,356 | 1.Transfer in of £1.35m from the Employability of the work<br>plus re-prioritisation with this Action to provide £3m per an<br>2. Additional allocation of £5m from the Central Reserve in |
| Educational and careers choice | 38,000 | 36,000 | 0 | 36,000 | 35,000 | -5,000 | 30,000 | 35,000 | -5,000 | 30,000 | Further savings identified due to the reform of Careers Wa |
| **Total Skilled Workforce** | **63,952** | **57,406** | **6,350** | **82,439** | **57,006** | **1,350** | **58,356** | **57,006** | **1,350** | **58,356** | |
| Access opportunities | 7,229 | 7,253 | -2,259 | 4,994 | 7,253 | -2,259 | 4,994 | 7,253 | -2,259 | 4,994 | Transfer out of £2.259m to Literacy & Numeracy. |
| Wellbeing of children and young people | 60,590 | 62,840 | -210 | 62,630 | 65,090 | -210 | 64,880 | 65,090 | -75 | 65,015 | 1. Additional allocation from the Central Reserve of £0.03m<br>2. Additional allocation from the Central Reserve of £0.105<br>Breakfasts.<br>Transfer out of £0.21m to the Central Services & Admin MI |
| Post-16 learner support | 311,281 | 306,680 | 4,300 | 310,980 | 308,073 | 10,900 | 318,973 | 308,073 | 13,800 | 321,873 | Additional allocation from the Central Reserve of £4.3m in<br>2014-15 in respect of extending student support to part-tim |
| Pupil engagement | 11,658 | 12,158 | 0 | 12,158 | 12,758 | 0 | 12,758 | 12,758 | 0 | 12,758 | |
| **Total Wellbeing** | **390,758** | **388,931** | **1,831** | **390,762** | **393,174** | **8,431** | **401,605** | **393,174** | **11,466** | **404,640** | |
| Welsh learning | 12,377 | 12,377 | 0 | 12,377 | 12,377 | 0 | 12,377 | 12,377 | 0 | 12,377 | |
| Welsh Language Board | 13,878 | 13,978 | 0 | 13,978 | 14,078 | 0 | 14,078 | 14,078 | 0 | 14,078 | |
| **Total Welsh Language** | **26,255** | **26,355** | **0** | **26,355** | **26,455** | **0** | **26,455** | **26,455** | **0** | **26,455** | |
| Delivery support | 5,313 | 5,148 | -2,000 | 3,148 | 5,006 | -2,000 | 3,006 | 5,006 | -2,000 | 3,006 | Efficiency savings identified from Strategic Communicatio<br>reallocated to front-line services (schools). |
| **Total Delivery Support** | **5,313** | **5,148** | **-2,000** | **3,148** | **5,006** | **-2,000** | **3,006** | **5,006** | **-2,000** | **3,006** | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Total Revenue DEL - Education and Skills** | **1,623,768** | **1,620,157** | **9,340** | **1,648,180** | **1,640,201** | **15,940** | **1,656,141** | **1,640,201** | **23,575** | **1,663,776** | |

| | | Budget June 2011 | | | Budget June 2011 | | | Budget June 2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Estate and IT provision | 169,923 | 161,243 | 0 | 161,243 | 143,734 | 0 | 143,734 | 143,734 | 0 | 143,734 |
| **Total Raising Standards** | **169,923** | **161,243** | **0** | **161,243** | **143,734** | **0** | **143,734** | **143,734** | **0** | **143,734** |
| Welsh Language Board | 50 | 100 | 0 | 100 | 100 | 0 | 100 | 100 | 0 | 100 |
| **Total Welsh Language** | **50** | **100** | **0** | **100** | **100** | **0** | **100** | **100** | **0** | **100** |
| | | | | | | | | | | |
| **Total Capital DEL - Education and Skills** | **169,973** | **161,343** | **0** | **161,343** | **143,834** | **0** | **143,834** | **143,834** | **0** | **143,834** |

| **REVENUE & CAPITAL BUDGET - Annually Managed Expenditure (AME)** | | | | | **£000's** | | | **£000's** | | **£000's** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Actions** | **2011-12 Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Changes** | **2012-13 Draft Budget New Plans** | **2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2013-14 Changes** | **2013-14 Draft Budget New Plans** | **2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2014-15 Changes** | **2014-15 Draft Budget New Plans** |
| Post-16 learner support | -115,649 | -132,021 | 32,128 | -99,893 | -150,601 | 42,146 | -108,455 | -150,601 | 24,627 | -125,974 |
| Post-16 learner support | 240,951 | 254,333 | -3,915 | 250,418 | 262,610 | 7,130 | 269,740 | 262,610 | 16,674 | 279,284 |
| **Total Support for Wellbeing** | **125,302** | **122,312** | **28,213** | **150,525** | **112,009** | **49,276** | **161,285** | **112,009** | **41,301** | **153,310** |
| | | | | | | | | | | |
| **Total AME - Education and Skills** | **125,302** | **122,312** | **28,213** | **150,525** | **112,009** | **49,276** | **161,285** | **112,009** | **41,301** | **153,310** |

| | | | | | **£000's** | | | **£000's** | | **£000's** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Education and Skills - Summary** | **2011-12 Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Changes** | **2012-13 Draft Budget New Plans** | **2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2013-14 Changes** | **2013-14 Draft Budget New Plans** | **2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2014-15 Changes** | **2014-15 Draft Budget New Plans** |
| | | | | | | | | | | |
| Revenue DEL | 1,623,768 | 1,620,157 | 9,340 | 1,648,180 | 1,640,201 | 15,940 | 1,656,141 | 1,640,201 | 23,575 | 1,663,776 |
| Capital DEL | 169,973 | 161,343 | 0 | 161,343 | 143,834 | 0 | 143,834 | 143,834 | 0 | 143,834 |
| **Total DEL** | **1,793,741** | **1,781,500** | **9,340** | **1,809,523** | **1,784,035** | **15,940** | **1,799,975** | **1,784,035** | **23,575** | **1,807,610** |
| | | | | | | | | | | |
| Revenue AME | -115,649 | -132,021 | 32,128 | -99,893 | -150,601 | 42,146 | -108,455 | -150,601 | 24,627 | -125,974 |
| Capital AME | 240,951 | 254,333 | -3,915 | 250,418 | 262,610 | 7,130 | 269,740 | 262,610 | 16,674 | 279,284 |
| **Total AME** | **125,302** | **122,312** | **28,213** | **150,525** | **112,009** | **49,276** | **161,285** | **112,009** | **41,301** | **153,310** |
| | | | | | | | | | | |
| **Total Education and Skills** | **1,919,043** | **1,903,812** | **37,553** | **1,960,048** | **1,896,044** | **65,216** | **1,961,260** | **1,896,044** | **64,876** | **1,960,920** |

**EDUCATION & SKILLS MEG**

**REVENUE BUDGET - DEL**

| | 2011-12 | 2011-12 | 2011-12 | 2012-13 | 2012-13 | 2012-13 | 2013-14 | 2013-14 | 2013-14 | 2014-15 | 2014-15 | 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Budget Expenditure Line (BEL) | Supp Budget | Approved Baseline Changes | Updated Baseline | Indicative Supp Budget Plans | Changes | Draft Budget New Plans | Indicative Supp Budget Plans | Changes | Draft Budget New Plans | Indicative Supp Budget Plans | Changes | Draft Budget New Plans | Explanatory Notes |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | |
| ~~Basic Skills~~ Literacy & Numeracy | 9,353 | -5,841 | 3,512 | 5,512 | 0 | 5,512 | 7,512 | 0 | 7,512 | 7,512 | 0 | 7,512 | BEL renamed to Literacy & Numeracy. |
| **Literacy & Numeracy** | **9,353** | **-5,841** | **3,512** | **5,512** | **0** | **5,512** | **7,512** | **0** | **7,512** | **7,512** | **0** | **7,512** | |
| 14-19 Learning in Wales | 20,620 | 0 | 20,620 | 20,620 | -3,368 | 17,252 | 20,620 | -4,611 | 16,009 | 20,620 | -4,611 | 16,009 | |
| Foundation Phase | 91,151 | 0 | 91,151 | 97,151 | 0 | 97,151 | 101,051 | 0 | 101,051 | 101,051 | 0 | 101,051 | |
| Curriculum & Assessment | 3,576 | 0 | 3,576 | 3,576 | 5,367 | 8,943 | 3,576 | 5,367 | 8,943 | 3,576 | 5,367 | 8,943 | |
| ~~Support for Improving Standards~~ | 6,215 | 0 | 6,215 | 6,215 | -6,215 | 0 | 6,215 | -6,215 | 0 | 6,215 | -6,215 | 0 | BEL incorporated into Curriculum & Assessment BEL above. |
| **Curriculum** | **121,562** | **0** | **121,562** | **127,562** | **-4,216** | **123,346** | **131,462** | **-5,459** | **126,003** | **131,462** | **-5,459** | **126,003** | |
| ~~General Teaching Council~~ | 6,501 | 0 | 6,501 | 6,273 | -6,273 | 0 | 5,972 | -5,972 | 0 | 5,972 | -5,972 | 0 | BEL incorporated into Teacher Development & Support. |
| ~~Teacher Train & Recruit Qualified~~ | 10,155 | 0 | 10,155 | 9,713 | -9,713 | 0 | 9,281 | -9,281 | 0 | 9,281 | -9,281 | 0 | BEL incorporated into Teacher Development & Support. |
| Teacher Development and Support | 3,185 | 0 | 3,185 | 3,185 | 16,863 | 20,048 | 3,185 | 16,730 | 19,915 | 3,185 | 16,930 | 20,115 | |
| ~~DYSG~~ | 377 | 0 | 377 | 377 | -377 | 0 | 377 | -377 | 0 | 377 | -377 | 0 | BEL incorporated into Teacher Development & Support. |
| **Teaching & Leadership** | **20,218** | **0** | **20,218** | **19,548** | **500** | **20,048** | **18,815** | **1,100** | **19,915** | **18,815** | **1,300** | **20,115** | |
| Qualifications inc Welsh Bacc | 15,304 | 0 | 15,304 | 15,304 | -1,736 | 13,568 | 15,304 | -1,736 | 13,568 | 15,304 | -1,736 | 13,568 | |
| **Qualifications** | **15,304** | **0** | **15,304** | **15,304** | **-1,736** | **13,568** | **15,304** | **-1,736** | **13,568** | **15,304** | **-1,736** | **13,568** | |
| Further Education Provision | 316,372 | 0 | 316,372 | 573,901 | -128,710 | 445,191 | 581,032 | -130,000 | 451,032 | 581,032 | -130,000 | 451,032 | |
| School Sixth Forms | 115,874 | 0 | 115,874 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Work Based Learning | 126,810 | 0 | 126,810 | 0 | 128,710 | 128,710 | 0 | 130,000 | 130,000 | 0 | 130,000 | 130,000 | |
| Adult Community Learning | 5,876 | 0 | 5,876 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| FE Policy Development | 836 | 0 | 836 | 836 | -100 | 736 | 836 | -100 | 736 | 836 | -100 | 736 | |
| Post-16 receipts | -23,392 | 0 | -23,392 | -23,392 | 0 | -23,392 | -23,392 | 0 | -23,392 | -23,392 | 0 | -23,392 | |
| **Post-16 Education** | **542,376** | **0** | **542,376** | **551,345** | **-100** | **551,245** | **558,476** | **-100** | **558,376** | **558,476** | **-100** | **558,376** | |
| HEFCW-Running Costs | 3,013 | 0 | 3,013 | 2,908 | 0 | 2,908 | 2,768 | 0 | 2,768 | 2,768 | 0 | 2,768 | |
| Higher Education Revenue | 380,082 | 0 | 380,082 | 356,032 | 0 | 356,032 | 348,732 | 0 | 348,732 | 348,732 | 0 | 348,732 | |
| Higher Education Receipts | -2,798 | 0 | -2,798 | -2,798 | 0 | -2,798 | -2,798 | 0 | -2,798 | -2,798 | 0 | -2,798 | |
| For Our Future - Coleg Ffederal & UHOVI | 14,100 | 0 | 14,100 | 24,200 | 0 | 24,200 | 31,500 | 0 | 31,500 | 31,500 | 0 | 31,500 | |
| HEFCW Depreciation | 82 | 0 | 82 | 82 | 0 | 82 | 82 | 0 | 82 | 82 | 0 | 82 | |
| **Higher Education** | **394,479** | **0** | **394,479** | **380,424** | **0** | **380,424** | **380,284** | **0** | **380,284** | **380,284** | **0** | **380,284** | |
| Transformation | 3,943 | 0 | 3,943 | 3,943 | 0 | 3,943 | 3,943 | 0 | 3,943 | 3,943 | 0 | 3,943 | |
| **Education Structures** | **3,943** | **0** | **3,943** | **3,943** | **0** | **3,943** | **3,943** | **0** | **3,943** | **3,943** | **0** | **3,943** | |
| ~~School Governor Activities~~ | 702 | 0 | 702 | 702 | -702 | 0 | 702 | -702 | 0 | 702 | -702 | 0 | BEL incorporated into the School Effectiveness Grant BEL |
| School Effectiveness Grant | 18,849 | 7,000 | 25,849 | 28,549 | 9,024 | 37,573 | 32,749 | 14,667 | 47,416 | 32,749 | 19,067 | 51,816 | |
| ~~Schools Performance Improvement~~ | 737 | 0 | 737 | 737 | -737 | 0 | 737 | -737 | 0 | 737 | -737 | 0 | BEL incorporated into the School Standards Support BEL. |
| ~~Other Schools Inspections~~ | 10 | 0 | 10 | 10 | -10 | 0 | 10 | -10 | 0 | 10 | -10 | 0 | BEL incorporated into the School Standards Support BEL. |
| ~~School Uniform Grant~~ | 770 | 0 | 770 | 770 | -770 | 0 | 770 | -770 | 0 | 770 | -770 | 0 | BEL incorporated into the School Effectiveness Grant BEL |
| School ~~Effectiveness~~ Standards Support | 1,532 | 0 | 1,532 | 1,532 | 747 | 2,279 | 1,532 | 747 | 2,279 | 1,532 | 747 | 2,279 | BEL renamed |
| **Education Standards** | **22,600** | **7,000** | **29,600** | **32,300** | **7,552** | **39,852** | **36,500** | **13,195** | **49,695** | **36,500** | **17,595** | **54,095** | |
| ~~Information Systems~~ | 2,094 | 0 | 2,094 | 2,094 | -2,094 | 0 | 2,094 | -2,094 | 0 | 2,094 | -2,094 | 0 | BEL incorporated with the ICT & IMS Programme BEL. |
| ~~Education IT Strategy~~ ICT & IMS Programme | 5,561 | 0 | 5,561 | 5,444 | 2,094 | 7,538 | 5,329 | 2,094 | 7,423 | 5,329 | 2,094 | 7,423 | BEL renamed |
| **ICT & Information Management Systems** | **7,655** | **0** | **7,655** | **7,538** | **0** | **7,538** | **7,423** | **0** | **7,423** | **7,423** | **0** | **7,423** | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Education and Training Standards** | **1,137,490** | **1,159** | **1,138,649** | **1,143,476** | **2,000** | **1,145,476** | **1,159,719** | **7,000** | **1,166,719** | **1,159,719** | **11,600** | **1,171,319** | |

| Budget Expenditure Line (BEL) | 2011-12<br>Supp Budget<br>£000 | 2011-12<br>Approved Baseline Changes<br>£000 | 2011-12<br>Updated Baseline<br>£000 | 2012-13<br>Indicative Supp Budget Plans<br>£000 | 2012-13<br>Changes<br>£000 | 2012-13<br>Draft Budget New Plans<br>£000 | 2013-14<br>Indicative Supp Budget Plans<br>£000 | 2013-14<br>Changes<br>£000 | 2013-14<br>Draft Budget New Plans<br>£000 | 2014-15<br>Indicative Supp Budget Plans<br>£000 | 2014-15<br>Changes<br>£000 | 2014-15<br>Draft Budget New Plans<br>£000 | Explanatory Notes |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Skills Development and Workplace Learning | 25,413 | 0 | 25,413 | 20,867 | 6,889 | 27,756 | 21,467 | 6,889 | 28,356 | 21,467 | 6,889 | 28,356 | |
| ~~Strategic Investment - External Match Funding~~ | 539 | 0 | 539 | 539 | -539 | 0 | 539 | -539 | 0 | 539 | -539 | 0 | BEL incorporated within Skills Development & Workplace Learning above. |
| **Skills in the Workplace** | **25,952** | **0** | **25,952** | **21,406** | **6,350** | **27,756** | **22,006** | **6,350** | **28,356** | **22,006** | **6,350** | **28,356** | |
| Employability | 6,433 | 1,100 | 7,533 | 8,533 | 10,150 | 18,683 | 8,533 | 10,150 | 18,683 | 8,533 | 10,150 | 18,683 | |
| **Employability** | **6,433** | **1,100** | **7,533** | **8,533** | **10,150** | **18,683** | **8,533** | **10,150** | **18,683** | **8,533** | **10,150** | **18,683** | |
| Careers Wales | 38,000 | 0 | 38,000 | 36,000 | 0 | 36,000 | 35,000 | -5,000 | 30,000 | 35,000 | -5,000 | 30,000 | |
| **Educational & Careers Choice** | **38,000** | **0** | **38,000** | **36,000** | **0** | **36,000** | **35,000** | **-5,000** | **30,000** | **35,000** | **-5,000** | **30,000** | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Skilled Workforce** | **70,385** | **1,100** | **71,485** | **65,939** | **16,500** | **82,439** | **65,539** | **11,500** | **77,039** | **65,539** | **11,500** | **77,039** | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Supporting Young People | 7,229 | -2,259 | 4,970 | 4,994 | 0 | 4,994 | 4,994 | 0 | 4,994 | 4,994 | 0 | 4,994 | |
| **Access Opportunities** | **7,229** | **-2,259** | **4,970** | **4,994** | **0** | **4,994** | **4,994** | **0** | **4,994** | **4,994** | **0** | **4,994** | |
| Spec. Placements/Students with Learning Difficulties FEIs | 12,294 | 0 | 12,294 | 12,294 | 0 | 12,294 | 12,294 | 0 | 12,294 | 12,294 | 0 | 12,294 | |
| School Based Counselling | 4,500 | 0 | 4,500 | 4,750 | 0 | 4,750 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | |
| Food & Drink in Schools | 15,850 | 0 | 15,850 | 17,850 | 0 | 17,850 | 19,850 | 0 | 19,850 | 19,850 | 135 | 19,985 | |
| Additional Learning Needs | 5,506 | 0 | 5,506 | 5,506 | -2,210 | 3,296 | 5,506 | -2,210 | 3,296 | 5,506 | -2,210 | 3,296 | |
| Post 16 Inclusion & Supp for Learning SEN | 22,440 | 0 | 22,440 | 22,440 | 2,000 | 24,440 | 22,440 | 2,000 | 24,440 | 22,440 | 2,000 | 24,440 | |
| **Wellbeing of Children & Young People** | **60,590** | **0** | **60,590** | **62,840** | **-210** | **62,630** | **65,090** | **-210** | **64,880** | **65,090** | **-75** | **65,015** | |
| Assembly Learning Grant | 195,236 | 0 | 195,236 | 196,323 | 0 | 196,323 | 198,232 | 0 | 198,232 | 198,232 | 0 | 198,232 | |
| SLC/HMRC Administration Costs | 8,541 | 0 | 8,541 | 7,985 | 0 | 7,985 | 7,469 | 0 | 7,469 | 7,469 | 0 | 7,469 | |
| Maintenance Loans Res Budget Prov | 97,918 | 0 | 97,918 | 92,918 | 4,300 | 97,218 | 92,918 | 10,900 | 103,818 | 92,918 | 13,800 | 106,718 | |
| Targeted Awards | 9,354 | 0 | 9,354 | 9,354 | 100 | 9,454 | 9,354 | 100 | 9,454 | 9,354 | 100 | 9,454 | |
| ~~Supp for Learning (Coleg Harlech Bursaries)~~ | 232 | 0 | 232 | 100 | -100 | 0 | 100 | -100 | 0 | 100 | -100 | 0 | BEL incorporated with Targeted Awards BEL above. |
| **Post-16 Learner Support** | **311,281** | **0** | **311,281** | **306,680** | **4,300** | **310,980** | **308,073** | **10,900** | **318,973** | **308,073** | **13,800** | **321,873** | |
| Tackling Disaffection | 1,158 | 0 | 1,158 | 1,158 | 0 | 1,158 | 1,158 | 0 | 1,158 | 1,158 | 0 | 1,158 | |
| Grants for the education of travellers children | 900 | 0 | 900 | 1,000 | 0 | 1,000 | 1,100 | 0 | 1,100 | 1,100 | 0 | 1,100 | |
| Minority Ethnic Achievement Grant | 9,600 | 0 | 9,600 | 10,000 | 0 | 10,000 | 10,500 | 0 | 10,500 | 10,500 | 0 | 10,500 | |
| **Pupil Engagement** | **11,658** | **0** | **11,658** | **12,158** | **0** | **12,158** | **12,758** | **0** | **12,758** | **12,758** | **0** | **12,758** | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Economic & Social Wellbeing & Reducing Inequality** | **390,758** | **-2,259** | **388,499** | **386,672** | **4,090** | **390,762** | **390,915** | **10,690** | **401,605** | **390,915** | **13,725** | **404,640** | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Welsh Language Development Unit | 12,377 | 0 | 12,377 | 12,377 | 0 | 12,377 | 12,377 | 0 | 12,377 | 12,377 | 0 | 12,377 | |
| **Welsh Learning** | **12,377** | **0** | **12,377** | **12,377** | **0** | **12,377** | **12,377** | **0** | **12,377** | **12,377** | **0** | **12,377** | |
| Welsh Language Board | 13,878 | 0 | 13,878 | 13,978 | 0 | 13,978 | 14,078 | 0 | 14,078 | 14,078 | 0 | 14,078 | |
| **Welsh Language Board** | **13,878** | **0** | **13,878** | **13,978** | **0** | **13,978** | **14,078** | **0** | **14,078** | **14,078** | **0** | **14,078** | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Welsh Language** | **26,255** | **0** | **26,255** | **26,355** | **0** | **26,355** | **26,455** | **0** | **26,455** | **26,455** | **0** | **26,455** | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Strategic Communications | 2,614 | 0 | 2,614 | 2,544 | -1,000 | 1,544 | 2,483 | -1,000 | 1,483 | 2,483 | -1,000 | 1,483 | |
| ~~International Education Initiatives~~ | 238 | 0 | 238 | 238 | -238 | 0 | 238 | -238 | 0 | 238 | -238 | 0 | BEL incorporated with the Education Research & Services BEL below. |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Education Research & Services | 2,461 | 0 | 2,461 | 2,366 | -762 | 1,604 | 2,285 | -762 | 1,523 | 2,285 | -762 | 1,523 |
| **Delivery Support** | **5,313** | **0** | **5,313** | **5,148** | **-2,000** | **3,148** | **5,006** | **-2,000** | **3,006** | **5,006** | **-2,000** | **3,006** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **E&S Revenue (including non-cash) DEL** | **1,630,201** | **0** | **1,630,201** | **1,627,590** | **20,590** | **1,648,180** | **1,647,634** | **27,190** | **1,674,824** | **1,647,634** | **34,825** | **1,682,459** |

**CAPITAL BUDGET - DEL**

| Budget Expenditure Line (BEL) | 2011-12 Supp Budget £000 | 2011-12 Approved Baseline £000 | 2011-12 Updated Baseline £000 | 2012-13 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2012-13 Changes £000 | 2012-13 Draft Budget New Plans £000 | 2013-14 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2013-14 Changes £000 | 2013-14 Draft Budget New Plans £000 | 2014-15 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 Draft Budget New Plans £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| General Support | 51,900 | 0 | 51,900 | 48,278 | 0 | 48,278 | 43,021 | 0 | 43,021 | 43,021 | 0 | 43,021 |
| Strategic Investment | 118,023 | 0 | 118,023 | 112,965 | 0 | 112,965 | 100,713 | 0 | 100,713 | 100,713 | 0 | 100,713 |
| **Estate & IT Provision** | **169,923** | **0** | **169,923** | **161,243** | **0** | **161,243** | **143,734** | **0** | **143,734** | **143,734** | **0** | **143,734** |
| **Education and Training Standards** | **169,923** | **0** | **169,923** | **161,243** | **0** | **161,243** | **143,734** | **0** | **143,734** | **143,734** | **0** | **143,734** |
| Bilingual Wales Fund - Capital | 50 | 0 | 50 | 100 | 0 | 100 | 100 | 0 | 100 | 100 | 0 | 100 |
| **Welsh Language** | **50** | **0** | **50** | **100** | **0** | **100** | **100** | **0** | **100** | **100** | **0** | **100** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **TOTAL E&S CAPITAL DEL** | **169,973** | **0** | **169,973** | **161,343** | **0** | **161,343** | **143,834** | **0** | **143,834** | **143,834** | **0** | **143,834** |

**ANNUALLY MANAGED EXPENDITURE**

| Budget Expenditure Line (BEL) | 2011-12 Supp Budget £000 | 2011-12 Approved Baseline Changes £000 | 2011-12 Updated Baseline £000 | 2012-13 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2012-13 Changes £000 | 2012-13 Draft Budget New Plans £000 | 2013-14 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2013-14 Changes £000 | 2013-14 Draft Budget New Plans £000 | 2014-15 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 Draft Budget New Plans £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cash Payments/Repayments Student AME - Capital | 240,951 | 0 | 240,951 | 254,333 | -3,915 | 250,418 | 262,610 | 7,130 | 269,740 | 262,610 | 16,674 | 279,284 |
| Cash Payments/Repayments Student AME - Revenue | -115,649 | 0 | -115,649 | -132,021 | 32,128 | -99,893 | -150,601 | 42,146 | -108,455 | -150,601 | 24,627 | -125,974 |
| **Post-16 Learner Support** | **125,302** | **0** | **125,302** | **122,312** | **28,213** | **150,525** | **112,009** | **49,276** | **161,285** | **112,009** | **41,301** | **153,310** |
| **TOTAL Support for Wellbeing AME** | **125,302** | **0** | **125,302** | **122,312** | **28,213** | **150,525** | **112,009** | **49,276** | **161,285** | **112,009** | **41,301** | **153,310** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **TOTAL E&S AME** | **125,302** | **0** | **125,302** | **122,312** | **28,213** | **150,525** | **112,009** | **49,276** | **161,285** | **112,009** | **41,301** | **153,310** |

**CELLS MEG - SUMMARY**

| | 2011-12 Supp Budget £000 | 2011-12 Approved Baseline Changes £000 | 2011-12 Updated Baseline £000 | 2012-13 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2012-13 Changes £000 | 2012-13 Draft Budget New Plans £000 | 2013-14 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2013-14 Changes £000 | 2013-14 Draft Budget New Plans £000 | 2014-15 Indicative Supp Budget Plans £000 | 2014-15 Changes £000 | 2014-15 Draft Budget New Plans £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Revenue DEL | 1,630,201 | 0 | 1,630,201 | 1,627,590 | 20,590 | 1,648,180 | 1,647,634 | 27,190 | 1,674,824 | 1,647,634 | 34,825 | 1,682,459 |
| Capital DEL | 169,973 | 0 | 169,973 | 161,343 | 0 | 161,343 | 143,834 | 0 | 143,834 | 143,834 | 0 | 143,834 |
| **Total DEL** | **1,800,174** | **0** | **1,800,174** | **1,788,933** | **20,590** | **1,809,523** | **1,791,468** | **27,190** | **1,818,658** | **1,791,468** | **34,825** | **1,826,293** |
| Annually Managed Expenditure | 125,302 | 0 | 125,302 | 122,312 | 28,213 | 150,525 | 112,009 | 49,276 | 161,285 | 112,009 | 41,301 | 153,310 |
| **Education & Skills** | **1,925,476** | **0** | **1,925,476** | **1,911,245** | **48,803** | **1,960,048** | **1,903,477** | **76,466** | **1,979,943** | **1,903,477** | **76,126** | **1,979,603** |

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
**Dyddiad: 19 Hydref 2011**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd**
**Teitl: Craffu ar y Gyllideb Ddrafft**

## 1. Diben

Darparu papur tystiolaeth ar gyllidebau a blaenoriaethau'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Phlant o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

## 2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am gynigion cyllideb yn y dyfodol ar gyfer 2012-13 hyd at 2014-15.

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae tri Maes Gweithredu penodol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant sy'n cwmpasu Gwasanaethau Plant, sef:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

mae'r ddau faes hyn o fewn Maes Rhaglenni Gwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cynrychioli 60.1% o gyfanswm y Maes Rhaglenni Gwariant, a

- Rhaglenni CAFCASS Cymru, sydd yn rhan o'i Faes Rhaglenni Gwariant ei hun.

Mae'r tabl isod yn dangos y Cyllidebau ar gyfer y tri Maes Gweithredu hyn.

| Refeniw (£ miliwn) | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant** | | | | |
| Llinell sylfaen | | 12.308 | 12.308 | 12.308 |
| Newidiadau | | (4.297) | (4.297) | (4.297) |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **12.308** | **8.011** | **8.011** | **8.011** |
| | | | | |
| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | | | | |
| Llinell Sylfaen | | 96.341 | 99.398 | 99.398 |
| Newidiadau | | 6.340 | 21.340 | 31.340 |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **94.294** | **102.681** | **120.738** | **130.738** |
| **Rhaglenni CAFCASS Cymru** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llinell Sylfaen<br>Dim Newidiadau | | 9.635 | 9.167 | 9.167 |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **10.138** | **9.635** | **9.167** | **9.167** |
| **Cyfanswm** | **116.740** | **120.327** | **137.916** | **147.916** |

*Noder - nodir crynodeb o'r newidiadau i linellau uchod y gyllideb Meysydd Gweithredu yn adran 8 o'r papur hwn*

(b) Yn ogystal â hyn, cafodd Awdurdodau Lleol £1.3 biliwn i gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn eu setliad refeniw yn 2010-11. O'r cyfanswm hwn, cafodd £417 miliwn ei wario ar wasanaethau plant a theuluoedd.

(c) Caiff y gwaith o ddarparu gwasanaethau'r GIG mewn perthynas â phlant, cyflyrau meddygol plant ac iechyd cyffredinol plant ei ariannu'n rhannol drwy'r dyraniadau refeniw blynyddol i Fyrddau Iechyd. Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd yw pennu sut y caiff yr arian hwn ei ddefnyddio ymhob un o'u meysydd cyfrifoldeb i ddiwallu anghenion iechyd eu poblogaethau lleol.

Fodd bynnag, mae'r Gyllideb Ddrafft yn dangos dyraniadau penodol ar gyfer y meysydd canlynol:

| Dyraniadau penodol (£ miliwn) | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Plant sy'n Agored i Niwed | 3.9 | 3.9 | 3.9 |
| CAMHS | 2.1 | 2.1 | 2.1 |
| Dechrau'n Deg | 46.6 | 60.6 | 70.6 |
| **Cyfanswm** | **52.6** | **66.6** | **76.6** |

(ch) Yn ogystal â'r symiau penodol a gyllidebwyd, mae sefydliadau'r GIG yn gwario tua £44 miliwn y flwyddyn ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (Ffynhonnell: Cyllidebau Rhaglenni Gwariant y GIG 2009-10; y Gyfarwyddiaeth Ystadegol; Llywodraeth Cymru 2011)

**4. Cyllidebu ar gyfer Plant**

*Yn yr adran hon, mae'r diffiniad o Blant yn unol â'r hyn a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - mae hyn yn cynnwys plant 0 oed hyd at, ond heb gynnwys 18 oed.*

Mae cyllidebu ar gyfer plant yn rhan o Flaenoriaeth 15 Cynllun Gweithredu 'Getting it Right' CCUHP ar gyfer 2009. Rhaglen dreigl bum mlynedd yw hon i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Mae Blaenoriaeth 15 yn ymwneud â gwella tryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig ag Erthyglau 4 a 12 o'r Confensiwn sy'n nodi y dylai Llywodraethau weithio'n unol â CCUHP a'r hawliau a nodir ynddo hyd eithaf eu gallu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt, ac y dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a ddaeth i rym ym mis Mai 2011, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a'i Brotocolau Dewisol wrth:

- wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â datblygu polisi a deddfwriaeth rhwng 1af Mai 2012 a 30ain Ebrill 2014;
- cyflawni eu swyddogaethau o 1af Mai 2014.

Bydd y ddwy fenter hon yn cydweithredu ac yn rhan o Fesur Goblygiadau Cyffredinol sydd ar gam datblygu cynnar.

**5. Datganiadau Cyllideb**

*Yn yr adran hon, mae'r diffiniad o Blant yn unol â'r hyn a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - mae hyn yn cynnwys plant 0 oed hyd at, ond heb gynnwys 18 oed.*

Ym mis Gorffennaf 2010, gwnaethom gyhoeddi ein dadansoddiad diweddaraf o'r gyllideb, a oedd yn cynnwys gwariant cyllidebol fesul grŵp oedran. Fodd bynnag, mae hyn yn dadansoddi faint sy'n cael ei wario ar blant, nid faint sy'n cael ei gyllidebu.

Fel y nododd ein hymateb blaenorol i'r Pwyllgor hwn, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r dadansoddiad hwn bob tair blynedd i gyd-daro â'r gwaith o gyhoeddi'r Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc. Yn y cyfamser rydym yn bwriadu parhau i ystyried dulliau eraill, gan gynnwys llunio Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc. Nid yw'n bosibl gwneud hyn ar y cam hwn gan y bydd angen gwneud rhagor o waith yn gyntaf.

**6. Blaenoriaethau**

Mae ymrwymiadau ein Maniffesto yn canolbwyntio'n glir ar roi cychwyn cadarn mewn bywyd i blant. Rydym am sicrhau bod plant yn cael y gofal sydd ei angen arnynt mor agos i'w cartrefi â phosibl mewn system integredig, diogel a chynaliadwy. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer iechyd plant Cymru fel a ganlyn:

- Ehangu Dechrau'n Deg
- Gwella Diogelwch ac Iechyd Plant
- Gwella Gwasanaethau Iechyd i Blant a Phobl Ifanc
- Gofal i Blant a Phobl Ifanc y mae salwch, anabledd neu gyflyrau hirdymor yn effeithio arnynt, neu sydd wedi cael eu cam-drin yn gorfforol neu'n emosiynol

## 7. Ymrwymiadau'r Maniffesto

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n benodol ymrwymiadau'r maniffesto y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Plant a'u teuluoedd a gaiff eu cyflawni yn ystod y pedair blynedd nesaf a dyma fydd ein prif flaenoriaethau ar gyfer y tymor Llywodraeth hwn.

Yn fwy penodol, mae'r Llywodraeth wedi amlygu pum addewid benodol sy'n arbennig o bwysig, sef 'Pump am Ddyfodol Tecach'. Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn uniongyrchol gyfrifol am gyflawni dwy o'r addewidion hyn, ac mae'r canlynol yn benodol i Blant;

<u>(a) Ehangu'r Rhaglen Dechrau'n Deg</u>

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant wedi cael cyllid ychwanegol gwerth £55m dros y tair blynedd nesaf mewn perthynas â'i raglen 'Dechrau'n Deg' a fydd yn cael effaith sylweddol ar gyfleoedd bywyd y rheini sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Byddwn yn dyblu nifer y Plant sy'n cael budd o ymweliadau iechyd gwell, mwy o leoedd am ddim mewn meithrinfeydd a chymorth gwell i deuluoedd drwy ein rhaglen 'Dechrau'n Deg'.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi bod buddsoddi mwy yn ystod blynyddoedd cynnar plant o deuluoedd difreintiedig yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u canlyniadau dysgu yn y byrdymor ac yn gwella eu sgiliau ac yn cau bylchau o ran canlyniadau dysgu i blant sy'n byw mewn tlodi yn yr hirdymor. Ar y dechrau, roedd Dechrau'n Deg yn seiliedig ar ddull integredig o ddarparu gwasanaethau gyda digon o fuddsoddiad i wella canlyniadau i blant.

Mae'r rhaglen yn rhagnodol. Mae pedair elfen allweddol yn ffurfio'r egwyddor graidd y mae Dechrau'n Deg yn ei chynnig i deuluoedd, sef:

- gofal plant rhan amser o ansawdd uchel am ddim i bob plentyn cymwys rhwng 2 a 3 oed (12.5 awr yr wythnos am 42 wythnos o'r flwyddyn);
- gwasanaeth ymweliadau iechyd dwys;
- y gallu i fanteisio ar raglenni rhianta dwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- y gallu i fanteisio ar sesiynau iaith a chwarae sy'n datblygu sgiliau sylfaenol i rieni a phlant.

Caiff y gwaith o ehangu'r rhaglen ei gyflwyno fesul cam dros nifer o flynyddoedd er mwyn gallu recriwtio a hyfforddi ymwelwyr iechyd a gweithwyr gofal plant ychwanegol; hyfforddi staff ychwanegol i ddarparu rhaglenni

rhianta; a darparu elfen o fuddsoddiad cyfalaf er mwyn datblygu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer darparu gofal plant ac elfennau allweddol eraill o'r rhaglen.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi cynlluniau gweithredu manwl a blaenoriaethu adnoddau i gyflawni holl ymrwymiadau maniffesto'r Llywodraeth dros y pedair blynedd nesaf.

(b) Cyflwyno Gwasanaeth Integredig Cymorth i deuluoedd (GCTI)

Mae GCTI yn wasanaeth statudol i atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed. Mae GCTI yn rhoi cymorth dwys i deuluoedd ar gam cynharach lle mae rhiant yn camddefnyddio sylweddau ac felly'n gwneud y plentyn yn fwy agored i niwed. Mae teuluoedd sy'n defnyddio GCTI yn cael budd o gymorth tîm medrus o weithwyr proffesiynol amlasiantaethol sy'n gweithio'n galed gyda phlant a theuluoedd. Mae'r timau hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner a gweithwyr proffesiynol i sicrhau y gall y teulu ddefnyddio ystod eang o wasanaethau yn ddi-oed i'w galluogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw er budd y plentyn.

Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r pedwar maes arloesi, mae GCTI yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd chwe awdurdod lleol arall a'u Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu GCTI erbyn gwanwyn 2012.

(c) Tlodi Plant

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn bwysicach fyth i ni gadw at ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant. Ein prif flaenoriaeth yn ddiau yw sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae tlodi yn effeithio ar eu bywydau yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall yng Nghymru.

Dyma pam mai Llywodraeth Cymru oedd un o'r sefydliadau cyntaf i basio deddfwriaeth benodol ar dlodi plant. Bellach, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill nodi pa gamau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae **Strategaeth Tlodi Plant Cymru**, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn nodi'r hyn y gallwn ei wneud i helpu i leihau tlodi plant a gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel.

Bydd y **Cynllun Gweithredu Gwrth-dlodi** sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu newydd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ac yn cynnwys manylion am ganlyniadau mesuradwy i ddangos cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth tlodi plant.

Bydd y gwaith o ddatblygu'r **Cynllun Gweithredu Gwrth-dlodi** yn helpu i sefydlu system gydweithredol ymhob rhan o Lywodraeth Cymru ac ymysg ein partneriaid i fynd i'r afael â'r materion difrifol iawn sy'n achosi tlodi yng Nghymru.

Bydd hyn yn atgyfnerthu ein dull o fynd i'r afael â thlodi plant gan y bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ystod ehangach o raglenni i fynd i'r afael â thlodi, er enghraifft drwy ailalinio Cymunedau yn Gyntaf fel rhaglen wrthdlodi flaenllaw sy'n ein helpu i fynd i'r afael â thlodi rhwng cenedlaethau sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn.

Mae ein gallu i leihau tlodi plant yng Nghymru yn amlwg yn dibynnu ar gamau a gymerir gan Lywodraeth y DU, yn arbennig mewn meysydd annatganoledig megis treth a thaliadau lles. Rydym yn rhannu'r pryderon sydd gan lawer o bobl am gyflymdra'r diwygiadau lles a budd-daliadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gweithredu, a'r effeithiau posibl y bydd y newidiadau hyn yn eu cael ar blant yng Nghymru.

(ch) Teuluoedd yn Gyntaf - Ffocws ar Anabledd

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesi sy'n hyrwyddo'r gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i ddatblygu systemau a chymorth amlasiantaethol effeithiol, gyda phwyslais clir ar brosesau atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi.

Cyfeirir at Deuluoedd yn Gyntaf ymhob rhan o'n maniffesto a chaiff ei nodi fel cyfrwng cyflawni pwysig ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant. Un o'r ymrwymiadau penodol yw "sicrhau ffocws clir ar amgylchiadau plant anabl fel rhan o'n Strategaeth Tlodi Plant a'n rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf".

O fis Ebrill 2012, bydd pob un o Awdurdodau Lleol Cymru yn rhan o'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Ar hyn o bryd mae 14 o Awdurdodau Lleol yn ymwneud â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod ei cham arloesi.

Mae swm o £0.5 miliwn wedi'i ymrwymo ar gyfer 2011-2012 yn ystod y cam arloesi ac mae £3m wedi'i ddyrannu o 2012-2013 i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Daeth yr arian hwn o benderfyniad Llywodraeth y DU i ddirwyn cynllun y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant i ben.

## 8. Crynodeb o'r Newidiadau i 'linellau'r gyllideb Meysydd Gweithredu' yn 2012-13

(a) Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

Mae hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni a datblygiadau polisi i gefnogi plant sy'n agored i niwed a gwasanaethau iechyd plant, gan gynnwys rhoi Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ar waith. Ceir **gostyngiad net o £4.3 miliwn** sy'n adlewyrchu'r trosglwyddiadau cyllidebol canlynol rhwng Meysydd Gweithredu:

- **£1.0 miliwn** o'r Maes Gweithredu Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag arian ar gyfer Plant sy'n Agored i Niwed

- **£1.2 miliwn** i'r Maes Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas ag arian ar gyfer CAMHS sy'n trosglwyddo i'r Dyraniad Refeniw BILl

- **£0.9 miliwn** i'r Maes Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl mewn perthynas ag arian CAMHS

- **£1.4 miliwn** i'r Maes Gweithredu Oedolion a Phobl Hŷn mewn perthynas ag arian ar gyfer Awtistiaeth (Plant ac Oedolion)

- **£0.5 miliwn** i'r Maes Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas ag arian ar gyfer Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newyddanedig

- **£1.3 miliwn** i'r Maes Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd i atgyfnerthu Cyllidebau Grantiau Plant a Theuluoedd Ifanc

(b) Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Mae'r Maes Gweithredu hwn yn darparu amrywiaeth o gymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae rhaglenni wedi'u targedu fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi'u cyfeirio at ein teuluoedd mwyaf difreintiedig er mwyn helpu i godi pobl o dlodi a rhoi gwell canlyniadau addysg, iechyd ac economaidd iddynt, ac mae rhaglenni ehangach yn cefnogi gofal plant a chwarae. Mae'r Maes Gweithredu hefyd yn ategu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni sy'n rhoi hawliau'r plentyn wrth wraidd yr hyn a wnawn.
Ceir **cynnydd net o £6.3 miliwn** yn 2012-13 sy'n cynnwys:

- Dyraniad Ychwanegol - £5.0 miliwn o'r Cronfeydd Canolog Wrth Gefn mewn perthynas â Dechrau'n Deg

- Trosglwyddiadau Rhwng Meysydd Gweithredu - £1.3 miliwn o'r Maes Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i gyfnerthu Cyllidebau Grantiau Plant a Theuluoedd Ifanc.

(c) Rhaglenni CAFCASS Cymru

Mae CAFCASS Cymru yn sefydliad gwaith cymdeithasol sy’n canolbwyntio ar blant ac sy’n darparu cyngor arbenigol ar waith cymdeithasol i lysoedd achosion teuluol, Llysoedd Sir a’r Uchel Lys. Mae’r cyllid hwn yn cefnogi dyletswyddau craidd y sefydliad yn ogystal â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 gan gynnwys y canolfannau cyswllt a’r gweithgareddau cyswllt a ddarperir. Mae trafodaethau manwl yn parhau ar y dyraniad cyllidebol terfynol a disgwylir i ragor o arian gael ei ddyrannu i CAFCASS Cymru yn 2012-13, sydd wedi’i gynnwys yn y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft ac a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd o tua 2% o gymharu â dyraniad eleni.